Cyllid &
Thollau EM

Mawrth 2019

Rhif Cofrestru TAW

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020

Annwyl gwsmer,

# Camau i'w cymryd ar frys: Paratowch eich busnes ar gyfer gadael yr UE heb gytundeb

Ysgrifennwn atoch oherwydd eich bod wedi cofrestru ar gyfer TAW a'ch bod yn masnachu nwyddau ar hyn o bryd â'r UE a/neu weddill y byd.

Yn y llythyr hwn, amlinellwn wybodaeth newydd am y newidiadau a fydd yn digwydd i weithdrefnau tollau a TAW ar gyfer masnachu rhwng y DU a'r UE pe bai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb. Byddwn hefyd yn esbonio **yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud nawr**, er mwyn i chi allu parhau i fewnforio ac allforio o 29 Mawrth ymlaen.

Darllenwch y llythyr hwn yn ofalus, hyd yn oed os nad ydych yn masnachu â'r UE. Er na fydd prosesau tollau'r DU ar gyfer masnachu â gweddill y byd yn newid, efallai y bydd angen i chi addasu eich systemau a phrosesau.

Er enghraifft, pan fo'r UE yn rhedeg prosesau masnachu ar ran aelod-wladwriaethau, efallai na fyddwch yn gallu cyrchu'r systemau hyn ar ôl i'r DU adael yr UE.

Os ydych yn defnyddio asiant tollau, siaradwch ag ef am yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud.

## Datganiadau tollau ar gyfer masnachu rhwng y DU a'r UE

Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, bydd rheolaethau tollau yn dod i rym ar gyfer mewnforio ac allforio rhwng y DU a'r UE.

Mae'n rhaid i chi fod yn barod i wneud datganiadau tollau ar gyfer nwyddau y mae eich busnes yn eu mewnforio neu eu hallforio, a bydd angen rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd (EORI) arnoch.

### Yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud nawr:

- os oes rhif EORI yn y DU gennych eisoes, sef rhif deuddeg digid sy'n dechrau â'r rhagddodiad 'GB', fel GB000000000000, gwnewch yn siŵr ei fod wrth law gennych i'w ddefnyddio ar gyfer masnachu rhwng y DU a'r UE, a chymerwch gamau fel eich bod yn barod i gwblhau prosesau tollau ar eich masnach rhwng y DU a'r UE
- os oes rhif EORI yn yr UE gennych eisoes (sef rhif sy'n dechrau â rhagddodiad gwlad arall, fel 'IE' neu 'FR'), does dim rhaid i chi gofrestru ar gyfer rhif EORI yn y DU eto - bydd CThEM yn dal i gydnabod eich rhif EORI yn yr UE am gyfnod dros dro, a bydd yn rhoi rhagor o wybodaeth am newid i ddefnyddio rhif EORI yn y DU cyn hir

## Gwneud mewnforio o'r UE yn haws

Mae CThEM yn cyflwyno Gweithdrefnau Symlach Dros Dro (TSP) newydd ar gyfer busnesau sydd wedi'u sefydlu yn y DU, a hynny i'w gwneud hi mor hawdd â phosibl i ddechrau mewnforio o'r UE ar ôl i'r DU adael yr UE pe na bai cytundeb.

Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TSP, byddwch yn gallu mewnforio nwyddau i mewn i'r DU o'r UE heb orfod gwneud datganiadau tollau llawn wrth y ffin, a byddwch yn gallu gohirio talu unrhyw dollau mewnforio. Fodd bynnag, yn achos nwyddau o dan reolaeth, bydd yn rhaid i chi roi rhywfaint o wybodaeth amdanynt cyn eu mewnforio. Byddwch yn rhoi cyfrif am TAW ar eich Ffurflen TAW.

Gallwch ddefnyddio TSP ar gyfer nwyddau rydych yn eu mewnforio o'r UE, ac ar gyfer nwyddau o weddill y byd, sy'n dod i mewn i'r DU o borthladd yn yr UE, cyhyd â'u bod eisoes wedi clirio tollau yn yr UE.

### Yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud nawr:

- **cofrestrwch ar gyfer TSP ar-lein**, bydd angen rhif EORI arnoch i wneud hyn

I gofrestru ar gyfer TSP, neu i gael arweiniad pellach, ewch i **www.gov.uk/hmrc/eu-simple-importing**.

## Hyrwyddiadau tollau

Gweithdrefnau symlach yw hyrwyddiadau tollau sydd â'r nod o wneud tollau yn haws ac, yn achos gweithdrefnau arbennig neu ohirio tollau, o wella eich llif arian.

Os ydych yn fusnes sydd wedi'i sefydlu yn y DU, a'ch bod wedi cael awdurdod i ddefnyddio hyrwyddiad gan CThEM (er enghraifft, o dan Weithdrefnau Tollau Symlach ar gyfer Nwyddau), bydd eich awdurdod yn dal i fod yn ddilys yn y DU o 29 Mawrth ymlaen. Efallai y bydd y ffordd rydych yn gallu ei ddefnyddio yn newid gan y bydd yn fwy cyfyngedig i'r DU, ond ni fydd rhaid bod gwarant gennych ar gyfer rhai hyrwyddiadau.

Os ydych wedi cael awdurdod i ddefnyddio hyrwyddiad gan wlad arall yn yr UE, ni fyddwch yn gallu defnyddio hwn ar ôl i'r DU adael yr UE. Bydd yn rhaid i chi wneud cais i CThEM am awdurdod newydd ar gyfer y DU er mwyn parhau i elwa.

### Yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud nawr:

- i gael gwybod beth fydd yr effaith ar eich awdurdod i ddefnyddio hyrwyddiad tollau os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, ewch i **www.gov.uk/hmrc/customs-authorisation-changes** neu siaradwch â'ch asiant tollau os oes un gennych

I gael arweiniad pellach ar hyrwyddiadau, ewch i **www.gov.uk/hmrc/customs-process**.

## Symud nwyddau drwy ddefnyddio'r Confensiwn Cludo Cyffredin (CTC)

Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, byddwch yn dal i allu defnyddio'r CTC er mwyn symud nwyddau rhwng y DU, gwledydd yr UE a gwledydd eraill y CTC (Gwlad yr Iâ, Norwy, Liechtenstein, y Swistir, Twrci, Gogledd Macedonia a Serbia). Os ydych yn defnyddio'r CTC, mae ond yn rhaid i chi dalu tollau pan fydd eich nwyddau yn cyrraedd eu cyrchfan terfynol. Yn ogystal, mae modd cwblhau rhai o'r gweithdrefnau ffurfiol o ran tollau i ffwrdd o'r ffin.

Mae Swyddfeydd Ymadael a Phen y Daith sydd eisoes yn bodoli'n debygol o fod yn brysur tu hwnt os byddwn yn gadael yr UE heb gytundeb. I osgoi ciwio'n ddiangen, dylech ystyried gwneud cais nawr i ddod yn anfonwr/derbynnydd awdurdodedig. Os bydd eich cais yn llwyddo, byddwch yn gallu cychwyn neu orffen symudiadau cludo o'ch safleoedd eich hun.

### Yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud nawr:

- os ydych am ddefnyddio'r CTC, dewiswch p'un ai i wneud datganiadau cludo eich hun, neu i ddefnyddio asiant neu gwmni anfon nwyddau
- paratowch i ddefnyddio'r CTC drwy wneud yn siŵr eich bod yn barod i wneud datganiadau cludo a drwy gysylltu â'ch banc er mwyn trefnu gwarantau tollau wedi'u cymeradwyo gan CThEM ar gyfer eich nwyddau
- os byddwch yn defnyddio'r CTC yn rheolaidd, ystyriwch wneud cais i fod yn anfonwr/derbynnydd awdurdodedig
- os ydych eisoes yn anfonwr/derbynnydd awdurdodedig, ystyriwch ehangu eich capasiti presennol, ychwanegu cyfleusterau newydd neu sicrhau eu bod ar gael i fasnachwyr eraill

Mae arweiniad pellach ar gael yn **www.gov.uk/hmrc/customs-process**.

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020

## Rheolaethau pellach ar gyfer allforion

Os yw eich busnes yn allforio nwyddau i'r UE o'r DU, bydd yn rhaid i chi wneud datganiad allforio i CThEM. Bydd hefyd yn rhaid i chi, neu bwy bynnag sy'n mewnforio nwyddau i'r UE ar eich rhan, gydymffurfio â thollau a rheolaethau aelod-wladwriaethau'r UE.

I osgoi oedi wrth y ffin, darllenwch wybodaeth gyhoeddus berthnasol yr aelod-wladwriaethau i gael gwybod pa gamau sy'n rhaid i chi eu cymryd er mwyn paratoi, ac ewch i **www.gov.uk/euexit** ar gyfer yr arweiniad perthnasol a fydd yn gymwys i'ch nwyddau.

## Newidiadau o ran rhoi cyfrif am TAW

Os byddwn yn gadael yr UE heb gytundeb, ar ôl 29 Mawrth, byddwch yn gallu datgan ac adennill TAW mewnforio ar eich Ffurflen TAW nesaf, yn hytrach na phan fydd eich nwyddau yn cyrraedd ffin y DU. Gelwir hyn yn ddull cyfrifyddu gohiriedig o ran TAW.

Os ydych yn fusnes sy'n masnachu rhwng y DU a'r UE, byddwch yn gyfarwydd â rhoi cyfrif am TAW fel hyn, wrth ddod â nwyddau i mewn i'r DU. O 29 Mawrth ymlaen, os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, bydd hefyd yn bosibl defnyddio'r dull cyfrifyddu gohiriedig o ran TAW pan fyddwch yn mewnforio o weddill y byd.

Byddwch yn gallu datgan ac adennill TAW mewnforio ar yr un Ffurflen TAW. I wneud hyn, bydd yn rhaid i chi roi eich rhif cofrestru TAW ar eich datganiad tollau.

### Yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud nawr:

- paratowch drwy siarad â'ch asiant treth am sut y gallai effeithio ar eich busnes, a'i awdurdodi i ddefnyddio'r dull cyfrifyddu gohiriedig ar gyfer TAW mewnforio ar eich rhan
- mynnwch wybod gan eich darparwr meddalwedd sut y bydd y newidiadau yn effeithio ar eich prosesau

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/hmrc/accounting-for-import-vat**.

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020

## Gwirio cofrestriad TAW

Os ydych yn defnyddio gwasanaeth dilysu rhifau TAW (VIES) yr UE ar hyn o bryd i wirio rhif TAW cwsmer neu gyflenwr, ni fydd rhifau TAW yn y DU yn rhan o'r gwasanaeth hwn mwyach ar ôl 29 Mawrth 2019.

Os bydd angen i chi wirio cofrestriad TAW yn y DU ar ôl hynny, gallwch ddefnyddio'r twlsyn gwirio rhifau TAW yn y DU, a fydd ar gael ar GOV.UK o 29 Mawrth 2019 ymlaen.

### Yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud nawr:

- ystyriwch sut mae'r trefniadau newydd hyn yn effeithio ar eich prosesau busnes, er enghraifft systemau TG

## Ad-daliadau TAW yr UE

Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, bydd busnesau yn y DU yn gallu adennill TAW o wledydd yr UE, a hynny drwy ddefnyddio'r prosesau presennol ar gyfer busnesau sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r UE.

### Yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud nawr:

- os ydych yn bwriadu cyflwyno hawliadau am ad-daliadau TAW yr UE ar gyfer 2018 drwy ddefnyddio System Electronig Ad-daliadau TAW yr UE, dylech gyflwyno'r rhain **cyn 29 Mawrth 2019**, yn hytrach na'r dyddiad cau arferol sef 30 Medi 2019

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/hmrc/eu-vat-it-rules**.

## Newyddion i’r funud am ymadael â’r UE

Mae’r llythyr hwn wedi canolbwyntio ar y newidiadau sydd wedi’u cyhoeddi yn ddiweddar, a fydd yn digwydd pe bai’r DU yn gadael yr UE heb gytundeb ar 29 Mawrth 2019. Mae cyhoeddiadau pellach yn debygol o gael eu gwneud yn rheolaidd o hyn ymlaen.

### Yr hyn sy’n rhaid i chi ei wneud nawr:

- cofrestrwch ar gyfer ein gwasanaeth i gael y newyddion diweddaraf drwy e-bost yn **www.gov.uk/hmrc/business-support** dewiswch e-byst helpu ac addysgu busnesau, yna ymadael â’r UE
- ewch i’r twlsyn i baratoi eich busnes ar gyfer y DU yn gadael yr UE ar GOV.UK **www.gov.uk/business-uk-leaving-eu** i gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn a’r camau y dylech eu cymryd i baratoi eich busnes ar gyfer y DU yn gadael yr UE heb gytundeb

Rydym yn cydnabod yr heriau rydych yn eu hwynebu wrth fynd i’r afael â gofynion newydd ac anghyfarwydd erbyn 29 Mawrth 2019. Rydym wedi ymrwymo i roi cymorth i chi a’ch busnes yn ystod y cyfnod hwn o newid, drwy eich helpu i gydymffurfio a gwneud mewnforio ac allforio â’r UE, pe na bai cytundeb, mor hawdd â phosibl.

Yn gywir,

Jim Harra
Dirprwy Brif Weithredwr, CThEM

Wedi’i dynnu’n ôl ar 31 Ionawr 2020